

Cwestiynau Cyffredin Datgelu gwybodaeth gyfrinachol am gleifion – gan gynnwys lle nad ydynt efallai'n addas i yrru

1. Pam mae'r GOC wedi datblygu'r canllawiau hyn?

Mae ein safonau'n nodi'n glir y dylai'r rhai sydd wedi cofrestru godi pryderon am eu cleifion yn brydlon os yw diogelwch cleifion neu'r cyhoedd mewn perygl o ran eu barn broffesiynol ac y dylent annog eraill i wneud yr un peth.

Mae rhai cofrestryddion ac aelodau o'r cyhoedd wedi gofyn am fwy o eglurder ynghylch a ydynt byth yn cael datgelu gwybodaeth gyfrinachol dan y Safonau Ymarfer ac wedi gofyn am arweiniad ar weithredu'r safonau hyn yn ymarferol.

Un maes penodol lle mae'r cofrestrwyr wedi dweud wrthym eu bod yn ei chael yn anodd yw lle gallai claf fod yn anaddas i yrru oherwydd ei olwg. [Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gennym](#) gyda chofrestryddion yn 2017, mewn achosion lle nad yw cleifion yn bodloni'r safonau golwg sy'n ofynnol i yrru, na fyddai 72% yn teimlo'n gyfforddus yn datgelu hyn i'r DVLA/DVA os na fyddai'r claf yn gallu neu ddim yn gallu gwneud hynny ei hun.

Mae amgylchiadau eraill lle gallai fod yn briodol datgelu gwybodaeth gyfrinachol er budd y cyhoedd ac oherwydd bod ein cofrestrwyr yn amrywio eu cwmpas ymarfer ac yn gweithio fwyfwy mewn timau amlddisgyblaethol, efallai y byddant yn dod ar draws mwy o sefyllfaoedd yn ymarferol lle gallai fod angen datgelu gwybodaeth er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Rydym felly wedi llunio'r canllawiau hyn i ddarparu'r eglurder hwnnw.

2. Pam nad yw'r GOC yn ei gwneud yn ofynnol i optometryddion roi gwybod i'r DVLA ar unwaith am gleifion nad ydynt yn addas i yrru?

Yn gyfreithiol, y gyrwyr sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r DVLA am unrhyw gyflyrau iechyd – mae hyn yn wir am bob cyflwr iechyd, nid rhai sy'n ymwneud â golwg yn unig.

Rydym yn pryderu y gallai system adrodd awtomatig arwain at ganlyniadau negyddol i iechyd cleifion a'r cyhoedd.

- Gallai niweidio'r berthynas o ymddiriedaeth rhwng cleifion a'u hymarferydd gofal llygaid neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, gan y dylai'r cyfrifoldeb fod ar gleifion i gysylltu â'r DVLA;
- Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gennym gyda'r cyhoedd y gallai atal pobl rhag mynd am broffion golwg (mynegodd 89% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn 2017

y farn hon). Gallai hyn arwain at ganlyniadau negyddol i iechyd y cyhoedd, gan gynnwys diogelwch ar y ffordd, os nad oedd y rhai yr oedd angen cywiro eu golwg yn cael profion golwg;
a

- Byddai'n ddull gwahanol i'r un a ddefnyddir gan reoleiddwyr eraill, gan gynnwys y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Fe wnaethom ymgynghori â'n holl randdeiliaid rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2019, drwy arolwg ar ein hyb ymgynghori, lle roeddem wedi gofyn am safbwyntiau ar fersiwn drafft o'r canllawiau. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, eglurwyd, er yr hoffai cofrestrdyddion gael arweiniad cliriach ar beth i'w wneud pan fyddant yn wynebu claf nad yw'n addas i yrru, eu bod hefyd yn gwerthfawrogi eu perthynas â chleifion ac nad ydynt am niweidio'r rhain oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.

3. Fel cofrestrai, byddwn yn ei chael yn anodd dweud wrth glaf fy mod yn datgelu gwybodaeth heb ei ganiatâd. Beth ddylwn ei wneud?

Rydym yn gwerthfawrogi nad yw hon yn sgwrs hawdd i ymarferydd ei chael ac y gall y claf ymateb yn negyddol. Fodd bynnag, fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, mae gennych gyfrifoldeb dros sicrhau gofal a diogelwch y cyhoedd. Mae ein canllawiau'n egluro bod rhai amgylchiadau lle bydd gennych ddyletswydd broffesiynol i ddiystyru cyfrinachedd er budd y cyhoedd.

Bydd rhai amgylchiadau cyfyngedig lle nad yw'n briodol i chi drafod eich bwriad i ddatgelu gyda'r claf cyn i chi wneud hynny, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y ddogfen ganllaw. Y tu allan i'r sefyllfaoedd hyn, mae bob amser yn well ceisio trafod y pwnc gyda'r claf yn gyntaf a cheisio ei gael i ddatgelu'r wybodaeth ei hun. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyswllt datgeliadau i'r DVLA/DVA, lle mae ddyletswydd ar y claf i roi gwybod iddo am unrhyw beth a allai effeithio ar ei allu i yrru'n ddiogel.

4. Pa ddyletswydd sy'n rhoi mwy o bwys ar safonau'r GOC? Cyfrinachedd neu ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed?

Nid oes gan unrhyw un o'n *Safonau Ymarfer* fwy o bwysau nag eraill. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir y gallai'r angen i ddiogelu'r cyhoedd fod yn drech na'r angen i gadw cyfrinachedd mewn rhai amgylchiadau. Dylech ddefnyddio eich barn broffesiynol wrth benderfynu pryd y gallai hyn fod yn angenrheidiol, gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfer cymorth os dymunwch.

5. A fydd y GOC yn fy nileu oddi ar y gofrestr os na fyddaf yn datgelu gwybodaeth am glaf lle mae diogelwch y cyhoedd mewn perygl?

Mae'r canllawiau wedi'u cynllunio i helpu cofrestrwyr i fod yn hyderus wrth gyfiawnhau eu penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth. Dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y mae dileu o'n cofrestr yn berthnasol, lle mai dyma'r unig gosb sy'n ddigonol i ddiogelu cleifion a budd y cyhoedd. Er bod gennym ddyletswydd i ymchwilio i unrhyw achos o adrodd am dorri ein safonau ac na allwn ragfarnu canlyniad unrhyw ymchwiliad posibl, dim ond ar yr hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan gymheiriaid yn yr un amgylchiadau y gwneir dyfarniadau FTP.

6. A ddylai profion golwg ar gyfer gyrwyr fod yn orfodol ar oedran penodol, neu ar ôl nifer penodol o flynyddoedd?

Byddai hyn yn golygu newid y gyfraith sy'n fater i'r Llywodraeth ac i'r DVLA (DVA yng Ngogledd Iwerddon) fel yr asiantaeth sy'n gyfrifol am roi trwyddedau gyrru.

Cyn ystyried newid i'r gyfraith, byddem yn disgwyl i'r Llywodraeth ymgynghori a chynnal asesiad effaith yn unol ag arferion safonol er mwyn nodi'r ystod lawn o effeithiau ac osgo unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Rydym wedi datblygu'r canllawiau hyn i fod yn briodol ar gyfer y gyfraith bresennol; petai'r gyfraith yn newid yn y dyfodol, efallai y byddwn yn diweddarau ein canllawiau yn unol â hynny. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, mai rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer optometryddion ac optegwyr cyflenwi ydym ni, nid gyrwyr. Ein rôl ni yw sicrhau bod optometryddion ac optegwyr cyflenwi yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau pan nad yw claf yn addas i yrru; nid ein rôl ni yw penderfynu ar y rheolau ynghylch pwy sy'n cael gyrru ai peidio, mae hynny'n fater i'r Llywodraeth a'r DVLA. Fel rheoleiddiwr annibynnol, nid ydym yn cymryd safiad ar faterion cyfreithiol y tu allan i'n cylch gwaith uniongyrchol gan y gallai hyn arwain at gwestiynu ein hannibyniaeth fel rheoleiddiwr.

7. Pam mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth am sefyllfaoedd nad yw optometryddion ac optegwyr cyflenwi yn dod ar eu traws yn aml yn ymarferol?

Gan fod ein cofrestryddion yn gweithio fwyfwy mewn amgylcheddau amlddisgyblaethol, gall y mathau o wybodaeth y bydd ganddynt fynediad atynt (a'r sefyllfaoedd y byddant yn dod ar eu traws) ehangu. Ar ben hynny, fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, mae ein cleifion yn ymddiried yn ein cofrestryddion a gallant ganfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae cleifion yn ymddiried mewn gwybodaeth am iechyd neu faterion eraill nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag ymarfer optegol. Am y rhesymau hyn, mae'r canllawiau'n ymdrin â datgeliadau mwy cyffredinol o wybodaeth yn ogystal â'r rheini a welir yn aml mewn ymarfer optegol.

8. Hoffwn wybod mwy am y gwahaniaeth rhwng caniatâd penodol a chaniatâd dealedig, a phryd y gellir defnyddio pob un. Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am hyn?

Mae canllawiau'r GOC ar ganiatâd yn nodi rhagor o wybodaeth yn y maes hwn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gyfeirio at hyn wrth i chi ddarllen y canllawiau ar ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.